***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 No. 322

# Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2012

## RHAN B

## APELAU ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG A HAWLIADAU ANABLEDD

### Paratoi achos cyn y gwrandawiad

*Ar ôl y gwrandawiad*

**Cais neu gynnig ar gyfer adolygiad o benderfyniad y Tribiwnlys**

**56.**—(1) Caiff parti wneud cais i Ysgrifennydd y Tribiwnlys am i benderfyniad y Llywydd neu'r panel tribiwnlys gael ei adolygu ar y seiliau—

(a) bod y penderfyniad wedi ei wneud yn anghywir oherwydd gwall pwysig ar ran gweinyddiaeth y Tribiwnlys;

(b) bod gan barti a oedd â hawl i gael ei glywed yn y gwrandawiad, ond a fethodd ag ymddangos neu gael ei gynrychioli, reswm da a digonol dros beidio ag ymddangos;

(c) bod gwall amlwg a phwysig yn y penderfyniad; neu

(ch) bod buddiannau cyfiawnder yn gwneud hynny'n ofynnol.

(2) Rhaid i gais am adolygu penderfyniad y Llywydd neu'r panel tribiwnlys gael ei wneud—

(a) mewn ysgrifen gan ddatgan y seiliau;

(b) ddim hwyrach nag 28 diwrnod ar ôl y dyddiad yr anfonwyd y penderfyniad at y partïon.

(3) Caiff y Llywydd—

(a) ar gais parti neu ar gymhelliad y Llywydd ei hunan, adolygu a gosod o'r neilltu neu amrywio unrhyw benderfyniad a wnaed gan y Llywydd, ar un o'r seiliau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1);

(b) gwrthod cais am adolygiad o benderfyniad y Llywydd yn unol â pharagraff (6).

(4) Caiff y Llywydd neu Gadeirydd y panel tribiwnlys a benderfynodd yr achos—

(a) ar gais parti neu ar gymhelliad y Llywydd neu'r Cadeirydd ei hunan, adolygu a gosod o'r neilltu neu amrywio unrhyw benderfyniad a wnaed gan y panel tribiwnlys ar un o'r seiliau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1);

(b) gwrthod cais am adolygiad o benderfyniad y panel tribiwnlys yn unol â pharagraff (6).

(5) Caiff Cadeirydd y panel tribiwnlys a benderfynodd yr achos orchymyn cynnal ail wrandawiad, gerbron yr un panel tribiwnlys neu gerbron panel tribiwnlys sydd wedi'i gyfansoddi'n wahanol.

(6) Caiff Llywydd neu Gadeirydd y panel tribiwnlys a benderfynodd yr achos wrthod y cyfan neu ran o gais am adolygiad os, ym marn y Llywydd neu'r Cadeirydd, nad oes siawns resymol i'r cais cyfan hwnnw neu'r rhan honno lwyddo.

(7) Oni fydd cais am adolygiad wedi ei wrthod yn unol â pharagraff (6), rhaid i'r adolygiad gael ei benderfynu, ar ôl rhoi cyfle i'r partïon gael eu clywed—

(a) gan y Llywydd, os gwnaed y penderfyniad gan y Llywydd;

(b) os gwnaed y penderfyniad gan banel tribiwnlys, gan y Llywydd neu'r panel tribiwnlys a wnaeth y penderfyniad neu gan banel tribiwnlys arall a benodir gan y Llywydd.

(8) Os yw Llywydd neu Gadeirydd y panel tribiwnlys a benderfynodd yr achos, ar gymhelliad y Llywydd neu'r Cadeirydd ei hunan, yn cynnig y dylid adolygu penderfyniad—

(a) rhaid i Ysgrifennydd y Tribiwnlys gyflwyno hysbysiad i'r partïon ddim hwyrach nag 28 diwrnod ar ôl y dyddiad yr anfonwyd y penderfyniad at y partïon; a

(b) rhaid rhoi cyfle i'r partïon gael eu clywed.

(9) Wrth benderfynu cais neu gynnig ar gyfer adolygiad o dan baragraffau (3), (4) neu (7), caiff y Llywydd neu'r Cadeirydd roi cyfarwyddiadau y mae'n rhaid cydymffurfio â hwy, cyn neu yn ystod y gwrandawiad o'r adolygiad.

(10) Os yw parti'n methu â chydymffurfio â chyfarwyddyd a wneir o dan baragraff (9), caiff y panel tribiwnlys gymryd y ffaith honno i ystyriaeth wrth benderfynu'r adolygiad neu benderfynu a ddylid gwneud gorchymyn ar gyfer costau.

(11) Caiff y Llywydd neu'r Cadeirydd, os gwneir cais gan barti, roi caniatâd i'r parti hwnnw newid tyst at ddibenion y gwrandawiad o'r adolygiad.

(12) Rhaid i gais a wneir o dan baragraff (11), ddod i law Ysgrifennydd y Tribiwnlys, a rhaid i'r ceisydd gyflwyno'r cais i'r parti arall, ddim hwyrach na 14 diwrnod gwaith cyn y gwrandawiad o'r adolygiad.

(13) Rhaid i'r Llywydd neu'r Cadeirydd roi cyfle i'r partïon gael eu clywed ynglŷn ag unrhyw gais a wneir o dan baragraff (11).

(14) Os gosodir penderfyniad o'r neilltu neu os amrywir penderfyniad yn dilyn adolygiad o dan y rheoliad hwn, rhaid i Ysgrifennydd y Tribiwnlys newid y cofnod yn y Gofrestr a rhaid iddo hysbysu'r partïon yn unol â hynny.